WGOS

# CYLCHLYTHYR

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

*8fed Argraffiad, Ionawr 2024*

## Croeso



Bydd Cylchlythyr GOCC yn eich cefnogi i lywio drwy ddiwygio contract optometreg Llywodraeth Cymru. Bydd pob cylchlythyr yn rhoi crynodeb o bwnc penodol gyda dolenni i adnoddau a chymorth perthnasol. Gydag awgrymiadau a chyngor i'ch helpu i baratoi ar gyfer y gwasanaethau optometreg newydd… ***rydym yma i'ch cefnogi chi.***

Bydd rhaglen ddiwygio GOCC yn gweld yr ystod o wasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG a ddarperir gan optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig (OMP) ac optegwyr cyflenwi yng Nghymru yn cynyddu, gyda phob aelod o dîm y practis yn cydweithio i weithio ar frig eu trwydded glinigol berthnasol.

## Bydd cylchlythyr #8 yn ffocysu ar y canlynol: Hawlio am GOCC gan ddefnyddio hen waith papur Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS)




Dyfal donc a dyrr y garreg. Bydd ffurflenni GOCC newydd yn cael eu cyflwyno maes o law, ond tan hynny byddwn yn defnyddio'r hen ffurflenni GOS gydag anodiadau. Mae ein cydweithwyr yn y Tîm Taliadau wedi gofyn i ni atgoffa staff o'r pwyntiau canlynol.



## Hawliadau GOCC 1 ar gyfer cleifion "mewn perygl"

Defnyddiwch GOS1W i wneud cais am GOCC 1 ar sail "risg" ac anodwch y ffurflen fel y nodir isod. Nid yw bellach yn briodol defnyddio ffurflen WECS1 i wneud hawliad ar gyfer cleifion â'r cymhwysedd hwn.



Rwyf wedi cofrestru'n unigolyn â nam difrifol ar fy ngolwg/nam ar fy ngolwg* â'r Awdurdod Lleol isod
Mae diabetes/glawcoma* arnaf - nodir manylion fy Meddyg Teulu isod
Mae opthalmolegydd yn yr ysbyty isod o'r farn y gallwn ddatblygu glawcoma
Rwy'n 40 oed neu'n hŷn ac yn rhiant/brawd/chwaer/plentyn* i berson yr oedd glawcoma arno/arni neu y mae glawcoma arno/arni
Rwyf wedi derbyn presgripsiwn ar gyfer lensys cymhleth o dan gynllun talebau optegol y GIG
6 Gydag un llygad yn unig / ag amhariad ar y clyw / yn dioddef o RP
7 mewn perygl o ddatblygu clefyd y llygaid oherwydd fy ethnigrwydd
Meddyg Teulu/Awdurdod Lleol/Ysbyty Nodwch eich ethnigrwydd
Cyfeiriad:
Cod Post:
Rhan 2 DATGANIAD Y CLAF


**6** Os yw'r claf yn gymwys gan y byddai'n ei chael hi'n arbennig o anodd colli ei olwg oherwydd cyflwr sydd eisoes yn bodoli h.y. dim ond un llygad sydd ganddo, mae ganddo nam ar y clyw neu mae wedi cael diagnosis o retinitis pigmentosa, nodwch y cyflwr sydd eisoes yn bodoli ar y ffurflen.

**7** Os yw'r claf yn gymwys oherwydd ei ethnigrwydd yn unig:

- Nodwch y canlynol ar y ffurflen: "mewn perygl o ddatblygu clefyd llygaid oherwydd fy ethnigrwydd"
- A chofnodwch ethnigrwydd y claf ar y ffurflen yn y blwch Meddyg Teulu/Awdurdod Lleol/Ysbyty.

## Tâl atodol ar gyfer lensys sydd wedi'u teilwra'n bwrpasol ar gyfer plentyn

Gellir hawlio tâl atodol ar gyfer lensys sydd wedi'u teilwra'n bwrpasol ar gyfer plentyn ar ffurflenni GOS3 a GOS4. Anodwch gefn y ffurflenni fel isod. Sylwch y gellir hawlio'r tâl atodol hwn ar gyfer lensys golwg sengl yn unig. Wrth wneud cais am drwsiad gan ddefnyddio GOS4W, os mai dim ond un lens a newidiwyd, dim ond ½ y tâl atodol y gellir ei hawlio.



HAWLIAD Rwy'n hawlio o dan gynllun talebau optegol y GIG fel a ganlyn: | Pâr 1af | 2il bâr
Gwir gost manwerthu sbectol/lensys cyffwrdd* os yw'n llai na gwerth(oedd) y talebau neu'n gyfatebol ag ef ynghyd ag unrhyw ychwanegiad(au) £ + £
Gwerth(oedd) y daleb £ £ (2)
Ychwanegiad(au): Pâr 1af: Cymhleth CNSL, Prism, Lens dywyll, Sbectol fach* SFC; 2ail bâr: Cymhleth CNSL, Prism, Lens dywyll, Sbectol fach* SFC — £ (3) £ (4) £ (5) £ (6)
*Peilter o'r canolbwynt mewn milimedrau
Cyfanswm nifer y talebau ac ychwanegiad(au) (sef 2,3,4,5-6) £ + 
Mae cost y sbectol neu'r lensys cyffwrdd yn fwy na (7) am y pâr 1af / 2ail bâr
Y swm uchaf y gellir ei hawlio am sbectol/lensys cyfwrdd £

**2** Os ydych yn hawlio 'Tâl Atodol ar gyfer Lensys sydd wedi'u Teilwra'n Bwrpasol ar gyfer Plentyn (CNSL)', croeswch y gair 'Cymhleth' allan a rhowch 'CNSL' yn ei le.

*Noder: Gellir hawlio'r tâl atodol dim ond os oes tystiolaeth i ddangos bod y claf wedi derbyn lens sy'n gwella'r ymddangosiad cosmetig e.e. lensys ag arwyneb, meintiau gwag llai, lensys mynegrif uwch ac ati.*

**3** Os yw Tâl Atodol ar gyfer Nodweddion Wyneb Arbennig (SFC) yn cael ei hawlio, croeswch y geiriau 'Sbectol fach' allan a rhowch 'SFC' yn ei le.

*Noder: Rhaid i'r cofnodion ddangos pam mae'r tâl atodol hwn yn cael ei hawlio yn ogystal â dangos bod ffrâm sbectol arbennig wedi'i chynhyrchu'n benodol ar gyfer y claf.*

## Talebau GOS3W

Mae gwerth y daleb yn cael ei bennu gan y dyddiad cyhoeddi nid y dyddiad y defnyddir y daleb. Ar gyfer taleb a roddwyd cyn 20Hydref dylid hawlio gwerth blaenorol y daleb.


## WGOS 2 mewn lleoliad symudol

Anodwch y ffurflen WECS 1 gyda'r rheswm pam mae'r claf wedi derbyn gwasanaeth symudol a nodwch ai hwn oedd yr unigolyn cyntaf, yr ail unigolyn neu'r unigolyn dilynol a welwyd yn y cyfeiriad hwn.

4. Os cyflawnwyd WGOS 2 mewn practis nas cymeradwywyd gan PCGC, mae'n rhaid i'r rheswm dros angen gwasanaeth symudol gael ei gofnodi ar y ffurflen hawlio yn ogystal ag ar y cofnod.

5. Os cyflawnwyd WGOS 2 y tu allan i bractis a gymeradwywyd gan PCGC, er mwyn cael y ffi gywir, nodwch y canlynol ar y ffurflen:

   "Rwy'n hawlio'r Ffi Symudol ar gyfer *[nodwch ai'r claf cyntaf, yr ail glaf neu'r claf dilynol ydyw]* yn y cyfeiriad"



Ni allaf fynd i bractis ar fy mhen fy hun oherwydd: 4 [nodwch y rheswm]

Gwyn ac Asiaidd ☐ Cymysg/aml-ethnig arall ☐
**Grŵp ethnig arall** Arabaidd ☐ Arall ☐ Nodwch ______

Os daliaf wybodaeth yn ôl neu os rhoddaf wybodaeth anghywir neu gamarweiniol, rwy'n deall ac yn derbyn y gallwn gael fy erlyn a/neu y gallwn fod yn destun achos sifil. Rwy'n cadarnhau bod gennyf yr hawl i Wasanaeth Gofal Llygaid Cymru, ac rwy'n cydsynio bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei datgelu er mywn gwirio hynny; cynllunio a gweinyddu'r gwasanaeth; ac atal a chanfod twyll. Rwy'n cytuno i dalu cost y gwasanaeth os gwelir yn nes ymlaen nad oes gennyf yr hawl i'w gael.

Llofnod y claf/gwarcheidwad: ______ 6 Dyddiad: ______ 2

Enw a chyfeiriad y gwarcheidwad ______

**Rhan 2. – Datganiad Optometrydd/Ymarferydd Meddygol Offthalmig: Rwy'n tystio i mi gynnal:**

Rwy'n hawlio'r Ffi Symudol ar gyfer 5 [nodwch ai'r claf cyntaf, yr ail neu'r claf dilynol ydyw] yn y cyfeiriad

**BAND 1: ARCHWILIAD IECHYD LLYGAID CYMRU (EHEW) Mae'r isod yn berthnasol i'r claf:**
Problem llygaid aciwt ac rwyf wedi cynnig apwyntiad iddo o fewn 24 awr o'r cais ☐
~~Golwg mewn un llygad yn unig ☐ Nam ar y clyw ☐ RP ☐ Arall ☐~~
Wedi'i gyfeirio gan weithiwr iechyd proffesiynol arall (nodwch): Opthom ☐ Meddyg teulu ☐ Fferyllydd ☐ Offthalm ☐ Arall ☐
~~Perygl o gael clefyd llygaid oherwydd cefndir ethnig (gweler uchod) ☐~~
Angen archwiliadau i gydymffurio â phrotocolau/canllawiau cytunedig Llywodraeth Cymru
DRSSW ☐ monitro: amau OHT/glawcoma ☐ AMD sych ☐ Arall ☐

**BAND 2: YMCHWILIADAU / ARCHWILIADAU PELLACH**
Mireinio cyn llawdriniaeth cataract ☐ Trawsnewid wedi llawdriniaeth cataract ☐
Mireinio OHT/glawcoma ☐ Cycloplegia ar blentyn ☐ Arall ☐

**BAND 3: ARCHWILIAD DILYNOL EHEW**
Dilyniant o fand 1 blaenorol ☐ Wedi llawdriniaeth cataract ☐ Arall ☐

## Gwasanaeth symudol a Thystysgrif Nam ar y Golwg (CVI).

Pan gyflawnir CVI mewn lleoliad symudol, dylid hawlio ffi'r gwasanaeth symudol gan ddefnyddio'r ffurflen hawlio CVI. Pan fo WGOS 1 a CVI yn cael eu cyflawni gyda'i gilydd mewn lleoliad symudol, a fyddech cystal â hawlio'r elfen gwasanaeth symudol ar y ffurflen GOS6W.

## Gwasanaethau CVI/Presgripsiynu Annibynnol (IP)

Defnyddiwch y ffurflenni hawlio'r gwasanaeth i ofyn am daliad, nid y ffurflen WECS1.

## Talebau ysbytai

Cyflwynwch [y talebau] i'r tîm cyllid perthnasol yn yr ysbyty a fydd yn eu hanfon ymlaen at PCGC i gael taliad.



# Cwestiynau allweddol

## ?

**Ydw i'n gontractwr, yn optometrydd neu'n optegydd cyflenwi sy'n gweithio yng Nghymru?**

- Os mai ***'ydw'*** yw eich ateb i'r uchod: cymerwch ofal i nodi'r pwyntiau hyn wrth wneud hawliadau am WGOS.
- Os mai ***'nac ydw'*** yw eich ateb, ymlaciwch ac arhoswch am y cylchlythyr nesaf.

## Crynodeb

### Beth?

Defnyddiwch yr hen ffurflenni hawlio GOS i hawlio ar gyfer GOCC.

### Pryd?

Bob dydd wrth gyflawni GOCC.

### Sut?

Mae enghreifftiau o sut i anodi'r ffurflenni GOS wrth hawlio GOCC i'w gweld yma.

# Cadwch mewn cysylltiad!

Optometreg Cymru (OW) yw'r sefydliad ymbarél proffesiynol ar gyfer y proffesiynau iechyd llygaid gofal sylfaenol yng Nghymru. Gallant gynnig cymorth a chyngor i chi.

Ebost: Debbie.O'Sullivan@Optometrywales.com

I gael diweddariadau yn y dyfodol trwy e-bost, cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn https://forms.office.com/e/4Kksq7sFpu neu tynnwch lun o'r cod QR isod gyda'ch ffôn clyfar.

Mae diweddariadau blaenorol i'w gweld yn: https://www.nhs.wales/sa/eye-care-wales/wgos/wgos-newsletters/